**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

27 Mehefin 2024

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Mehefin ar ran y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Rydych wedi gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymrwymiadau a wnaed gan fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths AS, y cyn-Weinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, mewn cysylltiad â ‘Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022’ (“y Rheoliadau”).

Ymrwymodd y cyn-Weinidog i gyflwyno Offeryn Statudol (OS) i gywiro’r ddau bwynt adrodd heb eu datrys nad oedd modd mynd i'r afael â nhw cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud. Roedd eich llythyr yn cyfeirio at bwyntiau adrodd 8, 25 a 30.

Roedd pwynt 8 yn nodi gwall yn y cyfwerthedd rhwng y fersiynau Saesneg a Chymraeg o reoliad 4(2)(a)(viii) o’r Rheoliadau. Gallaf gadarnhau i’r diwygiad i sicrhau bod y ddwy fersiwn o’r Rheoliadau’n cyd-fynd gael ei wneud pan gawsant eu cyhoeddi, yn hytrach na thrwy gyfrwng OS diwygiedig, a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am hynny yn ymateb y Llywodraeth ar 13 Rhagfyr 2022.

O ran pwynt adrodd 25 (hepgor cyfeiriad at Erthygl 5(5)(a) yn yr Atodlen i'r Rheoliadau), mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu OS diwygiedig, a byddaf yn mynd ati maes o law i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ac Aelodau’r Senedd am hynt yr OS hwnnw.

O ran pwynt adrodd 30, gwnaeth y cyn-Weinidog ymrwymiad, gan gymryd y byddai modd nodi pŵer addas, i ddiwygio'r weithdrefn graffu sy'n gymwys i un o'r pwerau dirprwyedig yn y Rheoliadau, gan newid o'r weithdrefn negyddol i'r weithdrefn gadarnhaol. Hyd yma, nid yw fy swyddogion wedi llwyddo i nodi pwerau addas i alluogi i’r newid y gofynnwyd amdano gael ei wneud, ond byddwn yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa er mwyn cyflwyno OS diwygio.

Er y byddai wedi bod yn well mynd i'r afael â'r ddau bwynt adrodd mewn un OS, er mwyn atal rhagor o oedi byddaf yn parhau i ddatblygu OS diwygio er mwyn datrys pwynt adrodd 25. Pan nodir pŵer addas a fydd yn caniatáu i waith fynd rhagddo ar bwynt adrodd 30, bydd OS ar wahân yn cael ei wneud bryd hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ateb eich cwestiynau. Byddaf yn cysylltu â chi eto unwaith y byddaf mewn sefyllfa i roi rhagor o wybodaeth ichi.

Yr eiddoch yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs